Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Drwy'r e-bost

**Cyfeirnod:** LF20001/AC/220/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Tachwedd 2020

Annwyl Llŷr

## Amcangyfrif Archwilio Cymru 2021-22 - Eglurhad

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth yr wythnos ddiwethaf gyda'r Pwyllgor, fe wnaethom addo rhoi peth eglurhad ychwanegol ynglŷn ag un o'r eitemau a godwyd.

### Mynediad o bell at systemau cleientiaid

Fel yr esboniwyd i'r Pwyllgor, rydym eisoes wedi llwyddo i drefnu bod ein harchwilwyr yn cael mynediad o bell at systemau ariannol y GIG, sy'n ei gwneud yn bosibl cwblhau gwaith archwilio o bell er gwaethaf pandemig COVID-19. Bu hyn yn bosibl oherwydd bod holl gyrff GIG Cymru yn defnyddio system gyllid gyffredin ac, unwaith y cafwyd mynediad o bell, roedd modd defnyddio hyn ar gyfer holl gyrff y GIG.

Ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol, cymysg fu'r cynnydd o ran trefnu mynediad o bell i archwilwyr at systemau cyllid llywodraeth leol; a chafwyd mynediad at rai, ond nid pob un, o'r cyrff hyn.

Mae sicrhau mynediad o bell at systemau llywodraeth leol wedi bod yn fwy heriol oherwydd bod y gwahanol awdurdodau'n defnyddio nifer o systemau gwahanol ac felly bydd pob awdurdod wedi datblygu ffyrdd gwahanol o sicrhau mynediad o bell ar gyfer ei staff ei hun a'n harchwilwyr ninnau. Mae darparu'r mynediad hwn yn ddiogel yn medru bod yn gostus ac yn heriol a bydd yn haws i rai awdurdodau ei gyflawni nag eraill. Rydym yn parhau i weithio gyda'n holl gyrff archwiliedig i gynorthwyo i gyflawni hyn.

### ASCII

Gofynnodd y pwyllgor a oedd modd i God Safonol America ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth (ASCII) fod o gymorth wrth sefydlu mynediad o bell at systemau cyllid mwy o awdurdodau.

Safon yw ASCII, a sefydlwyd yn y 1960au, ar gyfer cynrychioli llythrennau’r wyddor a rhifau y tu mewn i gyfrifiadur ar ffurf ddigidol. Mae safonau fel hyn yn sylfaenol i’r ffordd y mae cyfrifiaduron modern yn gweithredu. Mae systemau heddiw yn fwy tebygol o gynrychioli testun gan ddefnyddio safonau diweddarach, mwy cymhleth fel Unicode. Mae’r rhain yn adeiladu ar syniad ASCII ond yn ei ymestyn i nodau arbennig ar gyfer ieithoedd ar wahân i Saesneg, rhagor o symbolau ac yn y blaen. Er hynny, mae ASCII ei hun yn dal i gael ei defnyddio mewn rhai sefyllfaoedd, yn enwedig ar systemau “etifeddol”.

Yn gyffredinol, mae’r ffordd y caiff testun crai neu ddata rhifol ei gynrychioli y tu mewn i gyfrifiaduron gwahanol wedi’i safoni’n dda erbyn hyn. Anaml y mae rhyngweithio rhwng peiriannau ar y lefel sylfaenol hon yn broblem.

## Problemau diogelwch

Mae mynediad o bell yn golygu cysylltu â’r system darged ar draws y Rhyngrwyd. Yr her allweddol sydd ymhlyg mewn sefydlu trefniadau mynediad o bell heddiw yw gwneud hynny mewn ffordd nad yw’n cyflwyno risgiau seiber h.y. peryglu diogelwch.

Hanfod mynediad diogel o bell yw gwneud mynediad yn bosibl i’r rheiny sydd wedi’u hawdurdodi. Fel arfer, staff yr awdurdod ei hun fyddai’r rhain a phartneriaid fel ein harchwilwyr.

Fodd bynnag, rhaid i ddatrysiad mynediad o bell hefyd gadw allan hacwyr a throseddwyr, a allai fod yn unrhyw le yn y byd, gyda chymhelliant mawr i dorri i mewn. Mae troseddwyr seiber yn aml yn fedrus iawn yn dechnegol, yn barod i fanteisio ar fân ddiffygion, sydd newydd gael eu darganfod mewn systemau, er mwyn cael mynediad.

Mae sefydlu mynediad diogel o bell, felly, yn her beirianyddol sylweddol. Mae gan y Ganolfan Diogelwch Seiber Genedlaethol (NCSC) ganllawiau manwl ar sut y dylid gwneud hyn gan ddefnyddio cynhyrchion pwrpasol, "wedi’u caledu ar gyfer diogelwch", fel rhwydweithiau preifat rhithwir (VPNs) o Cisco, Microsoft, F5, Fortinet neu Palo Alto, neu gynhyrchion tenau cleient fel Citrix. Mae’r cynhyrchion hyn yn gymhleth, gallant fod yn gostus ac mae angen sgiliau technegol dwfn i’w gosod yn eu lle a’u cynnal.

Gall y canlyniadau i sefydliadau, sy’n cymryd llwybr byr gyda datrysiadau mynediad o bell, fod yn ddifrifol. Credir bod achosion aflonyddgar iawn o dorri data yn Travelex yn gynnar yn 2020, ac mewn rhai Prifysgolion yn y DU drwy gydol 2020, wedi cychwyn gyda throseddwyr yn manteisio ar ddatrysiadau mynediad o bell, oedd heb gael eu gosod yn eu lle neu eu cynnal yn gywir neu a oedd yn defnyddio technoleg anaddas.

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni os oes yna unrhyw eglurder pellach, y gallwn ei ddarparu, fyddai o fudd.

Yn gywir

**LINDSAY FOYSTER**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**